# Uned 10

## Cloffni Mewn Gwartheg a Defaid

## Taflen Wybodaeth

Cloffni yw'r drydedd broblem fwyaf pwysig ar nifer o ffermydd godro modern ar ôl mastitis a methiant atgynhyrchu. Amcangyfrifir bod 10% o'r ddiadell ddefaid cenedlaethol yn gloff ar unrhyw un adeg.

**Cloffni mewn Gwartheg**

Cloffni yw un o'r problemau lles mwyaf mewn gwartheg, ac mae'n achosi poen ac anesmwythder. Yn aml, mae cloffni'n deillio o letya a rheolaeth annigonol. Mae hyn yn arwain at lai o amser gorwedd, hylendid gwael ac anafiadau.

Mae'r straen o letya a bwydo heffrod sy'n llaetha ac mewn cystadleuaeth â gwartheg hŷn yn eu rhagdueddu i gloffni.

Y prif achosion o gloffni mewn gwartheg yw:

1. Wlserau gwadn
2. Clefydau Byw'r Carn
3. Troed Glonc – necrobasilosis rhwng y bysedd
4. Dermatitis Digidol/*Byseddol* - dermatitis rhwng y bysedd
5. Llid Llafnog
6. Treiddiad Corffyn Estron
7. Sawdl Slyri
8. Hollt yn y Carn
9. Anhwylderau Asgwrn a Chymal e.e. torasgwrn troedol.

Prif effeithiau cloffni yw:

- Poen a dioddef
- Colli cyflwr/graen corff a phwysau
- Colli cynnyrch
- Colli ffrwythlondeb

**Cloffni mewn Defaid**

Mae cloffni yn un o'r achosion anesmwythder mwyaf mewn diadell ddefaid.

Mae effeithiau cloffni'n cynnwys:

- Dirywiad yng nghyflwr y corff
- Canran ŵyna is
- Pwysau geni ŵyn is ac felly lleihad mewn hyfywdra ŵyn
- Gostyngiad yng ngraddfa tyfiant mewn ŵyn
- Gostyngiad mewn cynnyrch llaeth
- Ffrwythlondeb is mewn hyrddod
- Lleihad mewn tyfiant gwlân.

Prif achosion cloffni mewn diadell ddefaid yw:

1. Sgaldiad
2. Clwy'r Traed
3. Crawniad Byw'r Carn
4. Dermatitis Byseddol Defeidiog Gyffwrdd-ymledol

5. Carn Cragennog
6. Corffynnau Estron
7. Crawniad Cymal Troedol
8. Clwy'r Traed a'r Genau
9. Gronyn dyfiant
10. Ffibroma

**Atal Cloffni mewn Gwartheg a Defaid**

- Trimio traed yn rheolaidd
- Bathio'r traed mewn naill ai Fformalin neu Sinc Sylffad
- Diagnosis a thriniaeth sydyn
- Antibiotigau i'w defnyddio'n unig mewn achosion cloffni bacteriol
- Gwahanu'r anifail oddi wrth y brif ddiadell/fuches i'w atal rhag ymledu, yn enwedig gyda dermatitis digidol a chlwy'r traed.

**Trin Cloffni**

Gan fod amrywiaeth fawr o ffactorau sy'n gallu achosi cloffni, o faethiad i drimio traed gwael, rhaid nodi y dylid archwilio a thrin pob achos o gloffni yn unigol.

**Rhai pethau sydd ar gael i'r ffermwr yw:**

- Antibiotigau argroenol a phigiadwy
- Trimio'r traed
- Bathio'r traed
- Brechiad fel opsiwn ar gyfer clwy'r traed
- Bioddiogelwch da - osgoi prynu i mewn anifeiliaid cloff.

Cyngor rhagorol ar Wefan Prifysgol Reading:

http://www.organic-vet.reading.ac.uk/Cattleweb/disease/Lame/treat.htm